

Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth Cyfran 8: Cyllid Gwirfoddoli Digidol

[See all updates](#)

Mae cyllid ar gael i sefydliadau a phartneriaethau greu a chefnogi cyfleoedd gwirfoddoli digidol newydd.

Tudalen wedi'i chreu: 27 Medi 2021

Pwysig

Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth Cyfran 8: Nid yw cyllid Gwirfoddoli Digidol yn derbyn ceisiadau mwyach.

[Archwiliwch ein cyllid sydd ar gael.](#)

Ai dyma'r rhaglen iawn i chi?

- A yw'ch sefydliad am sefydlu cyfleoedd a rolau gwirfoddoli digidol newydd yn y DU?
- A fydd eich prosiect yn cefnogi treftadaeth y DU?
- A oes angen grant rhwng £10,000 a £100,000 arnoch chi?
- A fydd eich prosiect yn para dim mwy na 18 mis?
- Ydych chi'n sefydliad dielw neu'n bartneriaeth dan arweiniad sefydliad dielw?

Os ydych yn cytuno gyda'r holl gwestiynau uchod, yna gallwch ymgeisio am gyllid Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth 8: Gwirfoddoli Digidol.

Trosolwg

Mae'r fenter [Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth](#) wedi'i chynllunio i fagu sgiliau digidol a hyder ar draws sector treftadaeth y DU. Ers mis Chwefror 2020, rydyn ni wedi sicrhau bod cyllid, adnoddau a chanllawiau ar gael i helpu sefydliadau treftadaeth i ddefnyddio digidol er mwyn symud tuag at ddyfodol mwy gwydn a chreadigol.

[Mae'r canlyniadau o'n Arolwg Agweddau Digidol a Sgiliau ar gyfer Treftadaeth \(DASH\)](#) a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020, nododd gyfle i'r sector treftadaeth greu mathau newydd o gyfleoedd gwirfoddoli sy'n defnyddio sgiliau digidol.

Mae rhaglen ariannu newydd bellach ar gael i helpu sefydliadau neu bartneriaethau'r DU i sefydlu cyfleoedd gwirfoddoli digidol newydd ar draws y sector. Dylai cyfleoedd ganolbwyntio ar weithgareddau digidol a / neu weithgareddau y gellir eu cyflawni o bell.

Cyfanswm y cyllid sydd ar gael o dan y gyfran hon yw £1 miliwn ar draws yr holl grantiau. Mae grantiau o £10,000 i £100,000 ar gael ar gyfer pob prosiect. Hyd disgwylidig y prosiect yw 12 mis gydag estyniad posibl i 18 mis.

Expand All accordions

Y broses ymgeisio

1. Darllenwch y canllaw yma'n ofalus
2. Dilynwch ein [canllawiau ymgeisio](#) rhaglen agored wrth wneud cais am y cyllid yma. I adolygu ein gofyniad Allbynnau Digidol cyfredol, cyfeiriwch at y [Telerau Grant safonol](#).
3. Cyflwynwch [Ffurflen Ymholiad Prosiect](#) ar-lein erbyn 12pm ar 16 Awst 2021, gan ddefnyddio'r hashnod #Digital8 ar ddechrau teitl eich prosiect. Mae hyn yn caniatáu inni ddarparu adolygiad cychwynnol o'ch syniad. Byddwn yn anelu at roi adborth ichi o fewn 10 diwrnod gwaith.
4. Cyflwynwch gais llawn ar-lein trwy ein gwasaneth [Cael cyllid ar gyfer prosiect treftadaeth](#) erbyn hanner dydd ar 27 Medi 2021, gan ddefnyddio'r hashnod #Digital8 ar ddechrau teitl eich prosiect. Dim ond ar gyfer prosiectau sydd wedi cyflwyno Ffurflen Ymholiad Prosiect o'r blaen y derbynnir ceisiadau.
5. Byddwn yn asesu'ch cais ac yn gwneud penderfyniadau ar yr wythnos sy'n dechrau ar 8 Tachwedd 2021. Fe'ch hysbysir o'r penderfyniad trwy e-bost erbyn 18 Tachwedd 2021.

Expand All accordions

Pwy all wneud cais

Gallwch wneud cais os ydych yn:

- sefydliad dielw sy'n gweithio mewn perthynas â threftadaeth
- partneriaeth dan arweiniad sefydliad dielw sy'n gweithio mewn perthynas â threftadaeth

Expand All accordions

Yr hyn yr ydym yn chwilio amdano

Rydym yn chwilio am sefydliadau sydd am greu a sefydlu cyfleoedd a rolau gwirfoddoli digidol newydd.

Dylai'r rolau ganolbwyntio ar:

- gweithgareddau digidol neu
- gweithgareddau y gellir eu cyflawni o bell neu
- y ddau uchod

Gweithgareddau digidol

Wrth weithgareddau digidol, rydym yn golygu tasgau sy'n gofyn am sgil neu arbenigedd technegol. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys:

- adeiladu gwefan
- creu cronfa ddata
- ychwanegu meta data at asedau digidol
- creu cynnig gwasanaeth ar-lein
- sicrhau bod cynnwys ar-lein yn hygyrch

Gweithgareddau a wneir o bell

Wrth weithgareddau y gellir eu cyflawni o bell, rydym yn golygu unrhyw dasg sy'n cael ei chyflawni trwy ffôn symudol neu gyfrifiadur, lle mae technoleg yn cael ei defnyddio fel y dull cyflwyno. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys:

- recordio fideo hyrwyddo
- logio data
- cyflwyno sgwrs addysgol ar-lein
- uwchlwytho delweddau

Darparu cyfleoedd i wirfoddoli

Bydd prosiectau llwyddiannus yn creu cyfleoedd newydd i bobl elwa ar wirfoddoli i gefnogi treftadaeth. Byddant yn darparu cyfleoedd i aelodau'r cyhoedd wirfoddoli i gefnogi'ch sefydliad neu brosiect treftadaeth trwy wirfoddoli digidol a / neu o bell.

Bydd sefydliadau'n darparu sefydlu, hyfforddiant, cefnogaeth a, lle bo hynny'n berthnasol, mynediad at offer a chysylltedd i wirfoddolwyr.

Cefnogi arbenigedd gwirfoddoli digidol yn y sector

Bydd y grantiau hyn yn helpu sefydliadau i ddatblygu eu harbenigedd eu hunain mewn perthynas â recriwtio a gweithio gyda gwirfoddolwyr digidol. Byddant hefyd yn sefydlu rolau gwirfoddoli digidol sy'n cefnogi nodau strategol y sefydliad.

Mae'r prosiectau hyn wedi'u cynllunio i gefnogi datblygiad gwirfoddoli digidol ar draws y sector treftadaeth. Oherwydd hyn, byddwn yn ystyried y ffactorau hyn:

- Eich hanes a'ch profiad o recriwtio, cefnogi a, lle bo hynny'n berthnasol, cadw gwirfoddolwyr (nid oes angen i'r rhain fod yn wirfoddolwyr digidol).
- Angen a gwerth y mat/au o rôl gwirfoddolwr digidol rydych chi'n ei gynnig i'ch sefydliad neu brosiect.
- Budd tebygol yr ymagwedd ddewisol tuag at grwpiau a sefydliadau sy'n gweithio ar draws treftadaeth yn y DU, o ran pa mor drosglwyddadwy y gallai eich dull gweithredu fod.
- Eich gallu i recriwtio a chadw mathau newydd a gwahanol o wirfoddolwyr ag anghenion amrywiol mewn lleoliadau amrywiol.
- Eich dealltwriaeth o, ac agwedd tuag at, unrhyw risgiau sylweddol sy'n ymwneud â'r mathau o gyfleoedd gwirfoddoli digidol ac o bell rydych chi'n eu cynnig.

Rydym yn chwilio am brosiectau a fydd hefyd yn ysbrydoli ac yn dangos gwerth gwirfoddoli digidol i sefydliadau eraill sy'n gweithio gyda threftadaeth.

Rhannu allbynnau prosiect

Yn unol â gofyniad trwyddedu Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol dylid rhannu'r holl allbynnau digidol (er enghraifft, deunyddiau hyfforddi) o dan ein trwydded agored ddiodyfyn (CC GAN 4.0). Anogir sefydliadau i 'weithio yn yr awyr agored' a rhannu'r hyn maen nhw'n ei ddysgu, ei herio a'i symud ymlaen lle bo hynny'n bosibl.

Bydd Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn gweithio gyda'r garfan o brosiectau llwyddiannus i gytuno ar gynlluniau cyflawni prosiectau terfynol.

Bydd pob prosiect yn mynychu cyfarfod cychwynol ar-lein a bydd disgwyl iddynt rannu 'rysâit gwasanaeth' neu astudiaeth achos ar ddiwedd eu prosiect, a fydd yn caniatáu i sefydliadau eraill ddeall yr hyn a gyflawnodd y prosiect a sut y cafodd ei wneud.

Expand All accordions

Beth yw hyd y cyllid?

Hyd disgwylid y prosiect yw 12 mis gydag estyniad posibl i 18 mis. Gwneir penderfyniadau ym mis Tachwedd 2021. Rhaid i'ch prosiect beidio â dechrau cyn gwneud penderfyniad.

Expand All accordions

Sut y byddwn yn asesu

Pan fyddwn yn asesu ceisiadau, byddwn yn ystyried a yw'ch prosiect yn cwrdd â'r meini prawf a amlinellir yn yr adran 'yr hyn yr ydym yn chwilio amdano' ar y dudalen ganllaw hon.

Bydd ein hasesiad hefyd yn ystyried ystod o ffactorau sy'n berthnasol i'n holl gyllid drwy [ein rhaglen agored](#):

- P'un a yw'ch prosiect yn berthnasol i dreftadaeth yn y DU.
- Pa anghenion a chyfleoedd y bydd eich prosiect yn mynd i'r afael â nhw.
- Pa mor gryf y bydd eich prosiect yn cyflawni ein [canlyniadau blaenoriaeth ar gyfer 2021-22](#). Mae'n rhaid i'ch prosiect fodloni ein canlyniad gorfodol o gynnwys [bydd ystod ehangach o bobl yn ymwneud â treftadaeth](#).
- Gwerth am arian eich prosiect.
- Risgiau posibl i lwyddiant y prosiect, yn enwedig mewn perthynas ag effeithiau pandemig y coronafeirws (COVID-19) ar gyflawni'r prosiect.
- Eich agwedd at gynaliadwyedd amgylcheddol.

Expand All accordions

Sut y byddwn yn gwneud penderfyniadau

Bydd ceisiadau'n cael eu hystyried gan banel mewnol sy'n cael ei gynnull yn arbennig at y diben yma. Gwneir penderfyniadau ym mis Tachwedd a byddwch yn cael eich hysbysu trwy e-bost ar 18 Tachwedd 2021.

Os yw'ch cais yn llwyddiannus, rydym yn cadw'r hawl i gynnig swm gwahanol i chi na'r hyn rydych chi wedi gofyn amdano. Byddem yn trafod hyn mewn egwyddor gyda chi cyn y panel gwneud penderfyniadau.

Expand All accordions

Sut i wneud cais

Bydd angen i chi ddilyn ein [rhaglen agored](#) y broses ymgeisio er mwyn ceisio am y cyllid hwn.

I gychwyn eich cais, dylech ymweld â'n gwefan i greu cyfrif neu fewngofnodi i'n gwasanaeth [Cael cyllid ar gyfer prosiect treftadaeth](#)

Sylwch:

- Nid oes gan Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth [Ffurflen Ymholiad Prosiect](#) neu ffurflen gais ar wahân - byddwch yn defnyddio ein ffurflenni Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol i wneud cais.
- Darperir gwybodaeth benodol am yr arian sydd ar gael yn y canllaw hwn, ond dylech hefyd ddarllen ein rhaglen agored [canllawiau ymgeisio £10,000 i £250,000](#) yn ofalus.
- Dylech hefyd ddarllen drwy'r [telerau grant safonol](#) a [canllaw derbyn grant](#) ar gyfer prosiectau rhwng £10,000 a £100,000. Bydd y gofynion hyn yn berthnasol i brosiectau llwyddiannus.

Ffurflen Ymholiad Prosiect

Ar gyfer y cyllid hwn, rydym yn gofyn am gyflwyno [Ffurflen Ymholiad Prosiect](#). Y dyddiad cau ar gyfer hyn yw 16 Awst 2021 am hanner dydd. Y Ffurflen Ymholiad Prosiect yw eich cyfle i gael adborth ar eich syniadau cyn i chi ysgrifennu cais llawn. Byddwn yn anelu at ddod yn ôl atoch o fewn 10 diwrnod gwaith.

I gyflwyno Ffurflen Ymholiad Prosiect, cymerwch y camau canlynol yn y porth ymgeisio:

- Dewiswch 'Dechreuwch Ymchwiliad Prosiect' a llenwch y ffurflen. Rhwch #Digital8 (gan gynnwys y symbol hash) ar ddechrau teitl eich prosiect i'n helpu ni i adnabod eich cais yn gywir.
- Gofynnir i chi ddarparu ymateb byr i nifer o gwestiynau am eich prosiect arfaethedig. Mae'r rhain yn cynnwys yr hyn y byddwch chi'n ei wneud, pwy fydd yn cymryd rhan a beth yw ffocws treftadaeth y prosiect.
- Gofynnir i chi hefyd pa ganlyniad rydych chi am ei gyflawni. Mae'n rhaid i bob prosiect rydyn ni'n ei ariannu fodloni ein [canlyniad gorfodol](#).

Ffurflen gais llawn

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau llawn yw hanner dydd 27 Medi 2021. Rhaid i chi gyflwyno Ffurflen Ymholiad Prosiect er mwyn gwneud cais llawn.

Ochr yn ochr â'ch ffurflen gais bydd angen i chi gyflwyno dogfennau ategol gorfodol. Sylwch: nid yw'ch cais yn gyflawn nes i chi gyflwyno'r dogfennau ategol gorfodol. Ni allwn ddechrau asesu'ch cais hyd nes y derbynnir eich dogfennau ategol.

I gyflwyno'ch cais llawn:

- Dewiswch 'Dechreuwch gais newydd' a dewiswch £10,000- £250,000 fel yr ystod i wneud cais amdano.
- Rhwch #Digital8 (gan gynnwys y symbol hash) ar ddechrau teitl eich prosiect i'n helpu ni i adnabod eich cais yn gywir.
- Wrth lenwi'ch cais, ystyriwch yr adborth a gawsoch ar eich ymholiad prosiect, y canllaw hwn a'r canllaw ymgeisio. Sylwch hefyd ar y cyngor isod:
 - Ar gyfer y cwestiwn 'Pam mae angen i'ch prosiect ddigwydd nawr?', nodwyd yr angen am y cyllid hwn yn y [Arolwg Agweddau Digidol a Sgiliau ar gyfer Treftadaeth \(DASH\)](#). Yn eich ateb ar gyfer y cwestiwn hwn, dywedwch wrthym am unrhyw anghenion sydd wedi llunio'ch cynllun prosiect a pham mai chi yw'r sefydliad iawn i ddiwallu'r anghenion hynny.
 - Ar gyfer y cwestiwn '**Pam mae'ch prosiect yn bwysig i'ch cymuned?**' gallwch ateb “ddim yn berthnasol” neu “Amherthnasol”.

- Cyfeiriwch at y [rhestr lawn o ganlyniadau rhaglenni dilys](#). Sylwch fod yn rhaid i bob cais nodi sut y byddant yn cwrdd â'r [canlyniad gorfodol](#) heb hyn ni allwn ystyried eich cynnig am gyllid.

Expand All accordions

Dyddiadau allweddol

- 16 Awst 2021 (hanner dydd/12pm) - dyddiad cau ar gyfer cyflwyno Ffurflen Ymholiad Prosiect
- 31 Awst 2021 - adborth ar y Ffurflen Ymholiad Prosiect
- 27 Medi 2021 (hanner dydd/12pm) - dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau llawn
- Wythnos yn cychwyn 8 Tachwedd 2021 - Cyfarfod panel asesu'r Ymgyrch Ddigidol
- 18 Tachwedd 2021 - ymgeiswyr yn cael gwybod am benderfyniadau

Expand All accordions

Dogfennau i'ch helpu i wneud cais

[Canllawiau ymgeisio rhwng £10,000 a £250,000:](#)

Gwybodaeth a chyngor ar sut i ysgrifennu cynnig cryf. Dylech ddilyn hyn wrth gyflwyno'ch cais, ac eithrio pan fydd y cyfarwyddiadau uchod yn dweud wrthy'ch yn benodol am wneud rhywbeth gwahanol. Bydd pob term yn y canllaw yn berthnasol i'ch prosiect.

[Enghraifft Ffurflen Ymholiad Prosiect](#)

Er mwyn caniatáu ichi dderbyn adborth gennym cyn i chi ddechrau gweithio ar gais llawn.

[Templedi cynllun prosiect](#)

Templedi ar gyfer ein ffordd argymelledig i greu eich cynllun prosiect.

[Telerau safonol y grant £10,000 - £100,000](#)

Ein telerau ac amodau ar gyfer grantiau o'r maint hwn.

[Canllawiau arferion da](#)

I'ch helpu i gynllunio a chyflawni'ch prosiect treftadaeth.

[Adennill costau llawn](#)

Os ydych chi'n sefydliad yn y sector gwirfoddol, gallem helpu i dalu rhai o'ch costau gorbenion.

Newidiadau i'r canllaw yma

Byddwn yn adolygu'r canllaw yma'n rheolaidd ac yn ymateb i adborth defnyddwyr. Rydym yn cadw'r hawl i wneud newidiadau yn ôl yr angen. Byddwn yn cyfleu unrhyw newidiadau cyn gynted â phosibl trwy'r dudalen we hon.